

Sicrhau ansawdd addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio

Diweddariad Blynyddol 2018–2019



Yr hyn a wnawn

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae gennym gofrestr sy'n cynnwys tua 700,000 o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn y DU.

Mae gofal gwell a mwy diogel ar gyfer pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ofalu am bobl mewn ffordd ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad y byddant yn cychwyn yn eu swydd gyntaf.

Nid yw dysgu yn stopio ar y diwrnod pan fydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cymhwyso. Er mwyn hyrwyddo diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, mae gofyn i weithwyr proffesiynol ddangos trwy gydol eu gyrfa eu bod wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn diweddarau eu sgiliau a gwella fel ymarferwyr.

Rydym yn dymuno annog gweithredu agored a dysgu ymhlith proffesiynau gofal iechyd er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a bydd pobl mewn perygl, gallwn gamu i mewn er mwyn ymchwilio a gweithredu, gan gynnig llais i gleifion a theuluoedd wrth i ni wneud hynny.

Tudalen y cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	6
Rhan un: cymeradwyo rhaglenni addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio	7
Rhan dau: monitro a phryderon	15
Rhan tri: ymateb i bryderon	17

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein diweddariad blynyddol ar y gweithgaredd sicrhau ansawdd (SA) a gynhaliwyd gennym ym mlwyddyn academaidd 2018–19, sy'n cwmpasu sicrhau ansawdd addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio.

Bu hon yn flwyddyn eithriadol o bwysig a phrysur i'n gweithgaredd SA. Oherwydd inni gyflwyno ein safonau addysg newydd y llynedd ac oherwydd inni ddod yn gorff rheoleiddio i gymdeithion nyrsio, rydyn ni wedi dechrau'r broses o gymeradwyo pob sefydliad a rhaglen yn erbyn y safonau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy gyfrwng ein dull cymeradwyo newydd drwy'r pyrth.

Gyda'r dull pyrth newydd, nid oes angen i sefydliadau fod yn sefydliadau addysg cymeradwy (SAC) i ddechrau cyn ceisio cymeradwyaeth i raglen. Mae sefydliadau'n awr yn mynd drwy broses symlach i gael y ddwy gymeradwyaeth ar unwaith. Pobl sy'n bwysig yn ein gweithgaredd SA, a dan ein Fframwaith SA newydd, rydyn ni'n awr wedi cyflwyno ymwelwyr llyg i weithio ochr yn ochr â'n hymwelwyr cofrestredig ar bob cymeradwyaeth cyn cofrestru er mwyn sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaethau yn cael ei adlewyrchu'n briodol. Rydyn ni hefyd yn mynnu bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r gofawyr a fu'n gysylltiedig â datblygu'r rhaglenni mewn sefydliadau yn bresennol mewn digwyddiadau cymeradwyo.

Ar ôl cyflwyno ein Fframwaith SA a'n dull newydd y llynedd rydym wedi cysylltu'n agos â'r sector, gan gynnwys y Cyngor Deoniaid Iechyd i geisio'u hadborth ar ein dull, ac rydym wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i'r adborth er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gymesur, gadarn ac wedi'i thargedu.

Ochr yn ochr â'n gwaith yn cymeradwyo rhaglenni rydyn ni wedi parhau i ddatblygu ein dull monitro sefydliadau sy'n seiliedig ar ddata y byddwn yn ei roi ar waith y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i weithredu mewn ffordd sydd wedi'i thargedu mwy wrth wneud ymyraethau rheoleiddio a chymryd camau priodol ar yr un pryd i weithio â SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer os oes gennym bryderon, gan leihau'r baich rheoleiddio.

Yr Athro Geraldine Walters, CBE

Cyfarwyddwr Addysg a Safonau

Crynodeb gweithredol


- 1.** Mae ein fframwaith sicrhau ansawdd (SA) yn un o'r ffyrdd a ddefnyddiwn i sicrhau gofal gwell, mwy diogel. Bob blwyddyn rydym yn myfyrio ac yn adrodd ar ganlyniadau ein gweithgaredd SA i sicrhau y rhoddir i fyfyrwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad dysgu perthnasol i ymarfer yn ddiogel pan fyddant yn ymuno â'r gofrestr ac y gallant ddatblygu ar hynny gydol eu gyrfa. Rydyn ni hefyd yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ein dull o sicrhau ansawdd drwy wella ein prosesau.
- 2.** Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd nifer y sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) wedi cynyddu o 83 i 86, gan gynnig 1,087 o raglenni cymeradwy. Eleni mae 56 o sefydliadau wedi ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglenni dan ein safonau newydd.
- 3.** Yn ogystal â chymeradwyo rhaglenni, rydyn ni'n dal i fonitro sefydliadau drwy gyfrwng ein proses hunan-adrodd blynyddol a'n peirianweithiau pryderon. O'r 82 o SACau a oedd wedi cael cymeradwyaeth ers dros flwyddyn ac felly'n gorfod gwneud hunan-adroddiad blynyddol, ni wnaeth 21 ddarparu'r sicrwydd, i ddechrau, fod ein safonau'n cael eu bodloni. Fodd bynnag, y rheswm am hyn oedd nad oeddent wedi cyflwyno gwybodaeth briodol inni am newidiadau a wnaed o ganlyniad i argymhellion a wnaed mewn digwyddiadau cymeradwyo neu am nad oeddent wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am achosion o bryder sy'n agored yn hytrach na methiant yn y dysgu neu'r gofal. Ar ôl ailgyflwyno roedd yr 82 sefydliad wedi darparu sicrwydd digonol.
- 4.** Rydyn ni'n dal i fonitro sefydliadau gydol y flwyddyn, ac yn gwneud ymyraethau rheoleiddio pan fo gennym bryderon. Rydyn ni'n gwneud y gorau o'n gwybodaeth drwy annog pawb i rannu gwybodaeth a chydweithredu yn fewnol â'n Huned Gwybodaeth Reoliadol a'n Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, ac yn allanol â chyrff rheoleiddio a sefydliadau allweddol eraill.

Cyflwyniad

5. Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn) yn gosod y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer SA addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio. Mae ein safonau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn darparu'r gofynion angenrheidiol ar gyfer addysgu a hyfforddi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, a'r hyfedreddau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni i ymuno â'n cofrestr.
6. Mae'r diweddariad blynyddol hwn yn archwilio'r gweithgaredd SA yr ydym wedi'i gyflawni a'r themâu allweddol a'r risgiau sydd wedi dod i'r amlwg o'n trefniadau i sicrhau ansawdd sefydliadau addysg cymeradwy a'u partneriaid lleoliadau ymarfer ym mlwyddyn adrodd academaidd 2018–19 (o 1 Medi 2018–19 i 31 Awst 2019) ar gyfer addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio.
7. Mae ein rôl mewn addysg yn chwarae rhan bwysig yn y modd rydyn ni'n bodloni ein hamcan cyffredinol o sicrhau gofal gwell, mwy diogel. Ym mlwyddyn adrodd academaidd 2018–19 roedd ein trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd addysg yn cynnwys tri gweithgaredd allweddol.
 - **Cymeradwyo sefydliadau addysg a rhaglenni addysg.**
 - **Hunan-adroddiadau blynyddol.**
 - **Ymateb i bryderon.**
8. Y llynedd fe wnaethom gyhoeddi ein safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, yn ogystal â'n Fframwaith SA newydd, gan amlinellu'r newidiadau a wnaed yn ein ffordd o sicrhau ansawdd sefydliadau.

Rhan un: cymeradwyo rhaglenni addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio

9. Dan ein Fframwaith SA (2018) nid oes raid i sefydliadau addysg mwyach ennill statws sefydliad addysg cymeradwy (SAC) yn gyntaf cyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer eu rhaglenni. Mae'r broses hon yn awr wedi cael ei symleiddio'n un broses pyrth, lle caiff y sefydliad ei gymeradwyo ar yr un pryd ag y caiff rhaglen ei chymeradwyo.



Cymeradwyo sefydliadau addysg

10. Ar hyn o bryd ceir 86 o SACau ledled y Deyrnas Unedig, gyda thri SAC newydd yn cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Awst 2019: Prifysgol Roehampton, Prifysgol Caer-wynt a Phrifysgol Aberdeen.
11. Mae crynodeb o'r SACau a'r rhaglenni cymeradwy i'w weld yn nhabl un. Mae rhestr lawn o'r holl SACau i'w gweld yn nhabl dau.

Tabl un – crynodeb o'r data am SACau

Cyfanswm SACau yr NMC	86
Cyfanswm y rhaglenni a gymeradwywyd gan yr NMC	1,087
Nifer y SACau a gymeradwywyd i redeg rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn erbyn safonau cyn 2018	80
Nifer y SACau a gymeradwywyd i redeg rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn erbyn safonau 2018	37
Nifer y SACau a gymeradwywyd i redeg rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru	55
Nifer y sefydliadau addysg newydd a gymeradwywyd i fod yn SAC yn ystod y flwyddyn adrodd	3
Nifer y SACau a gymeradwywyd i gyflwyno rhaglenni nyrsio cyn cofrestru am y tro cyntaf	3
Nifer y SACau a gymeradwywyd i gyflwyno rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru am y tro cyntaf	2
Nifer y SACau a gymeradwywyd i gyflwyno rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru	32

Tabl dau – Rhestr o sefydliadau addysg cymeradwy a'r rheini sydd dan drefniadau monitro rhaglenni newydd

* Sefydliad newydd Trefniadau monitro rhaglenni newydd

LLOEGR	Prifysgol Brookes Rhydychen
Prifysgol Anglia Ruskin	Prifysgol Plymouth
Prifysgol Bedfordshire	Prifysgol Portsmouth
Prifysgol Dinas Birmingham	Prifysgol Reading
Prifysgol Birmingham	Prifysgol Roehampton*
Prifysgol Bolton	Prifysgol Salford
Prifysgol Bournemouth	Prifysgol Hallam Sheffield
BPP	Prifysgol Sheffield
Prifysgol Bradford	Prifysgol Solent Southampton
Prifysgol Brighton	Prifysgol Southampton
Prifysgol Brunel Llundain	Prifysgol Swydd Stafford
Prifysgol Newydd Swydd Buckingham	Prifysgol Suffolk, (Campws Prifysgol Suffolk gynt)
Prifysgol Eglwys Crist Canterbury	Prifysgol Sunderland
Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn	Prifysgol Surrey
Prifysgol Caer	Prifysgol Teesside
Prifysgol Dinas Llundain	Prifysgol Gorllewin Llundain
Prifysgol Cofentri	Prifysgol Gorllewin Lloegr ym Mryste
Prifysgol Cumbria	Prifysgol Caer-wynt*
Prifysgol De Montfort	Prifysgol Wolverhampton
Prifysgol Derby	Prifysgol Caerwrangon
Prifysgol Dwyrain Anglia	Prifysgol Caerefrog
Prifysgol Dwyrain Llundain	
Prifysgol Edge Hill	
Prifysgol Essex	
Prifysgol Caerwysg	GOGLEDD IWERDDON
Prifysgol Swydd Gaerloyw	Prifysgol Queens Belfast
Prifysgol Greenwich	Prifysgol Ulster yn Jordanstown
Prifysgol Hertfordshire	
Prifysgol Huddersfield	YR ALBAN
Prifysgol Hull	Prifysgol Aberdeen*
Prifysgol Keele	Prifysgol Abertay Dundee
Coleg y Brenin Llundain	Prifysgol Dundee
Prifysgol Kingston a Phrifysgol St George's Llundain	Prifysgol Napier Caeredin
Prifysgol Beckett Leeds	Prifysgol Caledonian Glasgow
Prifysgol Leeds	Prifysgol Caeredin
Prifysgol Caerlŷr	Prifysgol Glasgow
Prifysgol Lincoln	Prifysgol Highlands and Islands
Prifysgol John Moores Lerpwl	Prifysgol y Frenhines Margaret
Prifysgol Lerpwl	Prifysgol Robert Gordon
Prifysgol South Bank Llundain	Prifysgol Stirling
Prifysgol Metropolitan Manceinion	Prifysgol Gorllewin yr Alban
Prifysgol Manceinion	
Prifysgol Middlesex	CYMRU
Prifysgol Northampton	Prifysgol Bangor, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Prifysgol Northumbria	Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Nottingham	Prifysgol Glyndwr
Y Brifysgol Agored	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Abertawe

Cymeradwyo rhaglenni addysg

12. Y gweithgaredd mwyaf eleni fu cymeradwyo sefydliadau yn erbyn y fframwaith newydd ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth a safonau'r rhaglen presgripsiynu, nyrsio a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, gyda'r sefydliadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi dewis ceisio cymeradwyaeth yn 2020. Gwnaed y cymeradwyaethau hyn drwy'r broses pyrth a amlinellir uchod. Ym mhob porth caiff y dogfennau a gyflwynir eu hadolygu gan yr ymwelwyr i sicrhau bod ein safonau'n cael eu bodloni. Mae crynodeb o'r cyflwyniadau i'r pyrth i'w weld yn nhabl tri.

Tabl tri – Cymeradwyaethau drwy borth un a dau yn ôl sefydliadau

	CYFANSWM Y RHAGLENNI			
	Cyfanswm y sefydliadau	NA	RN	Presgripsiynu
SAau a gyflwynodd ym Mhorth un	56			
SAau a wrthodwyd ym Mhorth un i ddechrau	20			
SAau a gyflwynodd ym Mhorth dau	54			
SAau a wrthodwyd ym Mhorth dau i ddechrau	23	20	17	14
SAau a wrthodwyd ym Mhorth tri i ddechrau	6	3	3	2
SAau sydd wedi cael ymweliad cymeradwyo Porth pedwar	54	35	44	26

13. Fe wnaeth 56 o sefydliadau gais ym Mhorth un am ymweliad cymeradwyo yn ystod blwyddyn academaidd 2018–19. Fe wnaeth 36 o sefydliadau fodloni Porth un: **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** y tro cyntaf. Gwrthodwyd 20 o sefydliadau oherwydd diffyg tystiolaeth eu bod yn bodloni'r safonau, yn benodol oherwydd diffyg tystiolaeth ddogfennol neu naratif i gefnogi'r ffordd y byddai'r safonau'n cael eu bodloni. O'r 20 hwn, roedd 18 yn bodloni'r holl safonau pan ail gyflwynasant, ac roedd dau sefydliad wedi gohirio eu hymweliadau cymeradwyo tan y flwyddyn academaidd nesaf.
14. O'r 54 o sefydliadau a basiodd Porth un yn llwyddiannus, cafodd 23 o sefydliadau sy'n cynnig rhaglenni amryfal eu gwrthod i ddechrau ym Mhorth dau: **Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr** oherwydd diffyg tystiolaeth neu naratif. Fe wnaeth yr holl sefydliadau hyn basio Porth dau ar ôl ail-gyflwyno'r dystiolaeth. .
15. Ym Mhorth tri, gwrthodwyd i ddechrau chwe sefydliad addysg a oedd yn cynnwys wyth rhaglen, ailgyflwynwyd saith rhaglen ers hynny, ac maent wedi cael eu hymweliadau cymeradwyo Porth pedwar, ac mae un wedi gohirio ei gymeradwyaeth ar gyfer y rhaglen honno tan 2020.

16. Ym Mhorth pedwar, ar gyfer y 54 o sefydliadau a gafodd ymweliadau, roedd hyn yn cynnwys 105 o gyrsiau gwahanol. Dyma rai o ganlyniadau argymhellidig y rhaglenni hyn: Argymhellwyd cymeradwyo 10; argymhellwyd cymeradwyo 93 ar ôl bodloni amodau; ac argymhellwyd gwrthod cymeradwyo dwy. Mae gwybodaeth bellach am yr amodau i'w gweld isod.
17. Lle gwelwyd themâu ymysg y rhaglenni a wrthodwyd yn y gwahanol byrth, rydym wedi rhannu'r gwersi a ddysgwyd â'r sector drwy we-seminarau a chyflwyniadau a hefyd wedi cyflwyno gwybodaeth ategol sydd wedi cael ei chyhoeddi ar ein gwefan.
18. Ochr yn ochr â'r rhaglenni a gymeradwywyd yn erbyn y safonau newydd, cafodd tri darparwr newydd ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth eu cymeradwyo hefyd: Prifysgol Highlands and Islands, Prifysgol Bolton a Phrifysgol Lincoln. Cafodd rhaglen Nyrsio Ardal SPQ hefyd ei chymeradwyo ym Mhrifysgol South Bank Llundain.
19. Rydyn ni'n dal i fonitro'r gweithgaredd cymeradwyo rhaglenni ac rydym ar y trywydd iawn i fodloni ein dangosydd perfformiad allweddol (DPA) am nifer y SACau a gymeradwywyd yn erbyn y safonau newydd eleni. Ein DPA allanol ar gyfer gwneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo rhaglen ar ôl i adroddiad yr ymwelwyr ddod i law yw 20 diwrnod. Rydym wedi bodloni hwn 100 y cant, ac nid yw'r amser cyfartalog ond yn saith diwrnod.

Cymdeithion nyrsio

20. Ym mis Hydref 2018 cyhoeddodd y **Safonau ar raglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru**. Oherwydd yr oedi cyn i'r Sefydliad Prentisiaethau gyhoeddi'r safon prentisiaethau ar gyfer cymdeithion nyrsio, gwelsom nifer o sefydliadau yn gohirio dyddiadau cychwynnol eu hymweliadau. Fodd bynnag, cynhaliwyd 35 o ymweliadau cymeradwyo rhaglenni, gyda 32 o raglenni yn cael eu cymeradwyo ac argymhellwyd gwrthod un. Mae'r sefydliadau sy'n weddill yn bodloni eu hamodau ar hyn o bryd. Ceir yn awr 20 o sefydliadau eraill sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen cymdeithion nyrsio. Rydyn ni'n dal i gysylltu'n agos â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac ag Addysg Iechyd Lloegr ynglŷn â nifer o gymeradwyaethau cymdeithion nyrsio.
21. Oherwydd yr oedi cyn i'r Sefydliad Prentisiaethau gyhoeddi'r safon prentisiaethau rydym yn sylweddoli bod hynny wedi rhoi mwy o frys ar yr amserlenni cymeradwyo er mwyn caniatáu i raglenni ddechrau. Rydym felly wedi bod yn ymwybodol iawn o hyn ac wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau'n gyflym – ar gyfartaledd rydym wedi ymateb cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r adroddiad cymeradwyo ddod i law, o'i gymharu â'n DPA cyhoeddedig o 20 diwrnod, yr ydym wedi'i fodloni 100 y cant

Prentisiaethau gradd

22. Rydyn ni wedi dal i weld cynnydd yn y galw am y llwybrau prentisiaethau gradd i'n cofrestr. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2018–19 mae 11 o sefydliadau eraill yn awr yn cyflenwi prentisiaethau gradd nyrsio, gan wneud cyfanswm o 34.
23. Allan o'r 32 o raglenni cymdeithion nyrsio cymeradwy, mae 29 wedi'u cymeradwyo â llwybrau prentisiaethau.
24. Cynhaliwyd tri ymweliad hefyd i gymeradwyo llwybrau prentisiaethau gradd bydwreigiaeth (MDA) mewn rhaglenni bydwreigiaeth cymeradwy. Cynhaliwyd y rhain yn y safleoedd peilot addysg uwch a ddewiswyd gan Addysg Iechyd Lloegr (HEE): Prifysgol Greenwich, Prifysgol Gorllewin Llundain a Phrifysgol Bedfordshire.

Amodau

25. Os yw'r ymwelwyr yn gweld na chaiff ein safonau eu bodloni, gallant naill ai osod amodau, neu os codir pryderon mawr gallant argymhell gwrthod y rhaglen. Rhaid i'r sefydliad fodloni'r amodau hyn, sy'n cael eu cymeradwyo gan yr ymwelydd, cyn y byddwn yn cymeradwyo'r rhaglen.
26. Caiff amodau eu categoreiddio yn erbyn pum thema risg allweddol. Yn nhrefn yr amodau mwyaf cyffredin, y themâu risg oedd:
 - Dethol, derbyn a chynnydd.
 - Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth: cydweithredu, diwylliant, cyfathrebu ac adnoddau.
 - Dysgu ymarfer.
 - Asesu, addasrwydd i ymarfer a gwobrwyo.
 - Llywodraethu addysg: rheoli a sicrhau ansawdd.
27. Roedd yr amodau a osodwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:
 - Cynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn briodol yn y trefniadau dethol a derbyn.
 - Cydweithredu'n effeithiol ac yn gadarn â'r partneriaid dysgu ymarfer.
 - Egluro'r prosesau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol.
 - Adnoddau digonol gan y partner ymarfer a'r partner academiaidd.
 - Gwybodaeth fanwl ar sut caiff y rhaglen ei rhedeg, gan gynnwys asesiadau.
 - Sicrhau bod dogfennau'r rhaglen yn gyson.
28. Yn nhabl pedwar, rydyn ni wedi crynhoi'r holl amodau a roddwyd ar SACau yn dilyn digwyddiadau cymeradwyo ym mlwyddyn academiaidd 2018–2019.

Tabl pedwar (A) – Crynodeb o'r gweithgaredd cymeradwyo rhaglenni ac addasiadau mawr ag amodau

	Cyfanswm	NA	RN	Presgripsiynu	RM	RtP	SCPHN	SPQ
Rhaglenni yr argymhellwyd eu cymeradwyo heb amodau	69	5	19	1	38	3	2	1
Rhaglenni yr argymhellwyd eu cymeradwyo ar ôl bodloni'r amodau	114	31	42	26	10	2	0	3
Rhaglenni yr argymhellwyd eu gwrthod	2	1	1	0	0	0	0	0

Tabl pedwar (B) – Cyfanswm yr amodau mewn digwyddiadau cymeradwyo yn erbyn themâu risg allweddol

Thema risg allweddol	Cyfanswm
Dethol, derbyn a chynnydd	59
Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth: cydweithredu, diwylliant, cyfathrebu ac adnoddau	47
Dysgu ymarfer	46
Asesu, addasrwydd i ymarfer a gwobrwyo	34
Llywodraethu addysg: rheoli a sicrhau ansawdd	31

Gwrthodiadau

- 29.** Mae'r ymwelwyr ar hyn o bryd wedi argymhell gwrthod dwy raglen – un rhaglen cymdeithion nyrsio ac un rhaglen nyrsio. Pan gawn argymhelliad i wrthod rhaglen, gall y sefydliad wneud sylwadau ar yr adroddiad cyn inni ei weld. Mae'r Bwrdd SA wedyn yn adolygu'r dystiolaeth. Os ydym o blaid gwrthod y rhaglen yna mae gan y sefydliad un mis calendr arall i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol cyn inni wneud penderfyniad terfynol.
- 30.** Pe cyfyd pryderon ynglyn â'r myfyrwyr presennol, byddem yn cysylltu'n agos â'r SAC i sicrhau bod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a newid yn ein prosesau

- 31.** Rydyn ni'n gweithio'n barhaus â SACau i adolygu ein gweithgaredd SA i sicrhau ei fod yn briodol, yn gymesur, wedi'i dargedu ac yn dryloyw. Rydyn ni'n gweithio'n rheolaidd â gwahanol randdeiliaid i gasglu eu barn, ac fel rhan o'r gwaith hwnnw cynhelir arolwg o bob SAC sydd wedi bod drwy'r broses gymeradwyo. Caiff y themâu sy'n codi o'r arolwg hwn eu hystyried bob chwarter yn y Bwrdd SA. Yn ogystal ag arolygon, rydyn ni hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau o amgylch bwrdd â'r Cyngor Deoniaid Iechyd yn y gwahanol wledydd ac wedi gweithio'n agos â nhw i ymateb i unrhyw adborth.
- 32.** Gan inni gyflwyno Fframwaith SA newydd yn 2018 rydym wedi gwneud nifer o newidiadau yn ein prosesau mewn ymateb i adborth:
- Wedi gwella ein ffordd o gyfathrebu â sefydliadau sy'n ceisio cymeradwyaeth NMC am y tro cyntaf.
 - Wedi darparu mwy o eglurder yn ystod proses gymeradwyo'r pyrth er mwyn i sefydliadau allu cyfeirio rhwng y safonau a'r dystiolaeth yn hytrach na dyblygu'r hyn a gyflwynant.
 - Wedi cyflwyno proses newydd symlach, wedi'i thargedu ar gyfer sefydliadau er mwyn ychwanegu partneriaid prentisiaethau cyflogwyr newydd ar raglenni prentisiaethau cymeradwy.
 - Wedi cyflwyno gwybodaeth ategol bellach ar gyfer y sector ar ein gwefan, a hefyd wedi rhannu themâu allweddol ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu gwrthod yn y gwahanol byrth i helpu i lywio gweithgaredd cymeradwyo i'r dyfodol.

Rhan dau: monitro a phryderon

Hunan-adroddiad blynyddol

- 33.** Mae gofyn i SACau gynnal a chyflwyno hunan-asesiad a hunan-ddatganiad blynyddol o'u rhaglen(ni) cyfredol sydd wedi'u cymeradwy gan yr NMC. Mae'r hunan-asesiad yn gyfle i SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer gyflwyno esiamplau neu astudiaethau achos o ymarfer eithriadol neu arloesol, ac mae'n eu galluogi i dynnu sylw at unrhyw feysydd darpariaeth y maent yn ceisio'u gwella. Yn yr hunan-ddatganiad mae gofyn i'r SAC gadarnhau bod yr holl raglenni a gymeradwywyd yn dal i fodloni safonau'r NMC; bod yr NMC wedi cael ei hysbysu o'r addasiadau a wnaed i raglenni; a bod yr holl risgiau allweddol yn cael eu rheoli.
- 34.** Caiff adroddiadau hunan-asesu'r SAC eu hadolygu ac mae'n bosibl y gofynnwn i SACau ailgyflwyno eu hadroddiad a darparu rhagor o wybodaeth werthuso fanwl os na all y dystiolaeth a ddarparwyd ein sicrhau bod yr holl feini prawf wedi cael eu bodloni.
- 35.** Fe wnaeth yr 82 SAC, a oedd wedi cael eu cymeradwyo ers dros flwyddyn, ac a oedd felly'n gorfod cyflwyno hunan-adroddiad blynyddol ar y pryd, gyflwyno eu hadroddiadau hunan-asesu ar gyfer blwyddyn adrodd 2018-19. Fe wnaeth Prifysgol Caerwysg, sy'n SAC newydd, gyflwyno adroddiad hunan-asesu, fodd bynnag ni ddechreuwyd cyflwyno'r rhaglen NMC tan fis Medi 2019. Roedd 21 SAC (26 y cant) na wnaethant ddarparu sicrwydd yn eu hadroddiad hunan-asesu fod risgiau allweddol yn cael eu rheoli neu'u lliniaru. Mae hwn yn gynydd ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol a oedd yn 16 y cant.
- 36.** Er y cafwyd cynnydd yn nifer y sefydliadau na wnaethant ddarparu sicrwydd, y prif reswm oedd oherwydd iddynt fethu ag adrodd ar fanylion y cam(au) a gymerwyd i roi sylw i'r argymhelliad/argymhellion a wnaed yn y digwyddiadau cymeradwyo/addasu rhaglenni a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018. Roedd hyn yn wir am 17 allan o'r 82 SAC. Methodd y pedwar sefydliad oedd yn weddill â darparu diweddariadau ar achosion o bryderon sy'n agored.
- 37.** Fe wnaeth y 21 SAC ailgyflwyno eu hadroddiadau hunan-asesu; adolygwyd y rhain a cheir sicrwydd yn awr bod risgiau allweddol yr NMC yn cael eu rheoli a'u lliniaru yn 2018-19.
- 38.** Fe wnaeth 75 o SACau ddarparu amrywiol esiamplau o ymarfer da. Daw un esiampl benodol, sy'n bodloni ein meini prawf o ymarfer eithriadol neu arloesol, o Brifysgol South Bank Llundain lle maent yn cynnal gweithdai nam ar y clyw sy'n cael eu cydgynhyrchu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a myfyrwyr i sicrhau bod amddifadedd synhwyraidd yn cael ei sefydlu'n gadarn yng nghwricwla'r NMC. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal nifer o we-seminarau i rannu'r arferion da a welwyd yn y sector.

Monitro rhaglenni newydd a craffu manylach

- 39.** Wrth inni symud at ddull SA sy'n seiliedig ar ddata rydym wedi cyflwyno cyfnod o fonitro rhaglenni newydd ar gyfer yr holl SACau newydd, neu'r SACau presennol sy'n rhedeg rhaglen cyn cofrestru newydd. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro rhaglenni newydd yn para nes bo'r myfyrwyr cyntaf oddi ar y rhaglen yn ymuno â'n cofrestr. Mae hyn yn rhoi inni'r cyfle i weithio'n agosach â rhaglenni newydd a sefydliadau nad ydym wedi gweithio â nhw o'r blaen, y mae gennym o'r herwydd lai o wybodaeth amdanynt i arwain ein dull seiliedig ar ddata. Fel rhan o'r trefniadau ar gyfer monitro rhaglenni newydd, rhaid i'r rhaglenni gyflwyno hunan-adroddiadau inni ddwywaith y flwyddyn, a'r ddau dro bydd aelod o'r tîm SA wedyn yn trafod â nhw dros y ffôn. Yn 2018-19, rhoddwyd 36 o sefydliadau dan drefniadau monitro rhaglenni newydd yn cynnwys 32 o raglenni cymdeithion nyrsio, tair rhaglen nyrsio ac un SAC newydd nad oedd eto'n rhedeg rhaglen cyn cofrestru. Mae tabl cryno o'r sefydliadau sydd dan drefniadau monitro rhaglenni newydd wedi'i gynnwys yn nhabl dau. Cynhelir y trefniadau monitro rhaglenni newydd cyntaf o fis Tachwedd 2019 ymlaen.
- 40.** Fel rhan o'r dull monitro sefydliadau newydd sy'n seiliedig ar ddata, a weithredir yn llawnach y flwyddyn nesaf, rydyn ni hefyd wedi cyflwyno proses debyg i'r trefniadau monitro rhaglenni newydd ar gyfer rhaglenni sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo; craffu manylach yw'r enw ar hyn. Defnyddir trefniadau craffu manylach pan fydd gennym bryderon ar sail y data sydd gennym - er enghraifft os oes tueddiad, dros amser, i nifer y myfyrwyr sy'n gadael rhaglen ddal i gynyddu. Yn 2018-19 ni roddwyd yr un rhaglen dan drefniadau craffu manylach.

Rhan tri: ymateb i bryderon

- 41.** Rydyn ni'n dal i fonitro SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n safonau. Pan gyfyd risgiau, rhaid i SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer ymateb yn gyflym i reoli a lliniaru'r risgiau'n briodol. Dylai SACau e-bostio adroddiadau eithriadol atom a byddwn yn gweithredu pan na chaiff y risgiau hyn eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol yn lleol. Rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan gyrff rheoleiddio systemau, gweithgaredd sganio'r cyfryngau a chwythu'r chwiban, yn ogystal â drwy ein Huned Gwybodaeth Reoliadol (RIU).
- 42.** Pan ddaw pryderon i law, drwy unrhyw un o'r dulliau hynny, cânt wedyn eu graddio fel a ganlyn:
- mân – mae'r risgiau na fydd ein safonau'n cael eu bodloni'n fychan iawn ac yn annhebygol o effeithio ar amgylchedd dysgu'r myfyrwyr nac ar ddiogelwch y cyhoedd
 - cymedrol – risgiau na fydd ein safonau'n cael eu bodloni gydag effaith bosibl ar amgylchedd dysgu'r myfyrwyr ac ar ddiogelwch y cyhoedd
 - mawr – mae'r risgiau na fydd ein safonau'n cael eu bodloni yn uchel gydag effaith bosibl ar amgylchedd dysgu'r myfyrwyr ac ar ddiogelwch y cyhoedd
 - difrifol – mae'r risgiau na fydd ein safonau'n cael eu bodloni yn uchel gyda'r potensial o gael effaith fawr ar amgylchedd dysgu'r myfyrwyr ac ar ddiogelwch y cyhoedd.
- 43.** Yn ystod 2018–19 cawsom gyfanswm o 109 o bryderon, gyda 65 yn cael eu categorio'n rhai mân, 36 yn rhai cymedrol, pump yn rhai mawr a thri yn ddifrifol. Mae crynodeb llawn o'r pryderon i'w weld yn nhabl pump. Yn y tabl, rydym yn nodi lle codwyd y pryder â ni yn gyntaf ac, er bod cyfran fawr yn dod oddi wrth ein RIU yn hytrach na gan y SAC yn uniongyrchol i ddechrau, mae hyn yn digwydd yn bennaf oherwydd bod yr RIU mor effeithlon am amlygu pryderon. Yn yr amgylchiadau hyn rydym wedyn, fel mater o drefn, hefyd yn cael adroddiad eithriadol gan y SAC i amlygu'r un pryderon a'u camau gweithredu fel y byddem yn ei ddisgwyl. Os na chlywn gan y SACau dan sylw, rydym yn cysylltu â nhw ac yn eu hatgoffa o'n disgwyliadau. I'r dyfodol, bydd sefydliadau, sy'n methu â chyflwyno adroddiadau eithriadol ar feysydd y nodwyd eu bod yn peri pryder, yn cael eu monitro fel rhan o'n dull SA seiliedig ar ddata, a gallent gael eu rhoi dan drefniadau craffu manylach.
- 44.** Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau eithriadol yn dal i ymwneud â phroblemau yn yr amgylcheddau ymarfer, gan gynnwys adroddiadau niweidiol gan gyrff rheoleiddio systemau a'u heffaith ar ddysgu myfyrwyr, yr oruchwyliaeth a'r asesiadau ac uwchgyfeirio pryderon myfyrwyr, a pha gamau a gymerwyd yn lleol i reoli'r pryderon hynny.

45. Ar ôl rhoi pryder mewn categori, mae nifer o wahanol gamau ymyrryd rheoleiddiol y gallwn eu cymryd i sicrhau bod y rhaglenni yn dal i fodloni ein safonau; mae'r ymyraethau hyn yn amrywio o ddim gweithredu pellach os cawsom sicrhad digonol gan y sefydliad, drwodd i gynnal adolygiad eithriadol, sy'n gallu arwain at inni dynnu cymeradwyaeth oddi ar raglen. Mae crynodeb o'r ymyraethau rheoleiddio i'w gweld yn Atodlen pump.
46. Os gwelwn ddigwyddiadau niweidiol, difrifol a phryderon ynglŷn â SAC neu leoliad ymarfer ac os yw'r mesurau risg lleol yn gyfyngedig, mae'n bosibl y penderfynwn gynnal adolygiad eithriadol heb ei drefnu. Gallai'r cam hwn fod yn angenrheidiol os ceir pryderon sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd, ac os tybir bod y SAC naill ai ddim yn ymwybodol neu ddim yn gallu rhoi mesurau digonol ar waith i reoli'r risg. Ni chynhaliwyd dim adolygiadau eithriadol newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2018–2019. O safbwynt y tair eitem ddifrifol sy'n agored ar hyn o bryd, mae'r cyfan wedi cael galwadau rheolaidd oddi wrth yr uwch dîm; mae dau ohonynt wedi cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb amryfal, gan gynnwys â chyrrff llywodraethu a chyrrff rheoleiddio eraill i gael sicrwydd parhaus. Mae'r sicrwydd parhaus hefyd wedi golygu gofyn am gynlluniau gweithredu priodol, a chynlluniau wrth gefn ar gyfer tynnu myfyrwyr oddi ar raglenni. Caiff yr eitemau difrifol eu hadolygu'n fisol yn ein Bwrdd SA mewnol.
47. Fel rhan o'n rôl fel corff rheoleiddio dynamig, rydyn ni'n parhau i rannu gwybodaeth yn fewnol â'n Uned Gwybodaeth Reoliadol a'n cydweithwyr Addasrwydd i Ymarfer yn ogystal ag yn allanol lle bo'n briodol â chyrrff rheoleiddio systemau a gweithwyr proffesiynol eraill.

Tabl pump (A) – Nifer y pryderon a agorwyd yn ôl ffynhonnell y pryder a'r radd

	Adroddiadau eithriadol	Corff rheoleiddio systemau	Sganio'r cyfryngau	Chwythu'r chwiban	Uned Gwybodaeth Reoliadol	Cyfanswm
Mân	36	3	1	3	22	65
Cymedrol	17	4	3	2	10	36
Mawr	1	0	1	0	3	5
Difrifol	0	0	2	0	1	3
						109

Tabl pump (B) – Camau ymyrryd rheoleiddiol a gymerwyd â phryderon

	Cau heb ddim gweithredu pellach	E-bost i gael eglurhad	Galwad gan swyddog SA	Gofyn am gynllun gweithredu	Galwad gan yr Uwch Dîm	Cyfarfod wyneb yn wyneb	Adolygiad eithriadol	Cyfanswm
Mân	7	48	2	6	2	0	0	65
Cymedrol	0	24	0	11	0	1	0	36
Mawr	0	2	0	1	2	0	0	5
Difrifol	0	0	0	0	1	2	0	3
								109



NMC Nursing &
Midwifery
Council

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7637 7181

www.nmc.org.uk

The nursing and midwifery regulator for England,
Wales, Scotland and Northern Ireland

Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)